Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb ar ôl Ysgol Traed Bach**

**Ysgol Bro Gwydyr**
**Heol Watling**
**Llanrwst**
**LL26 0EY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/03/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Clwb ar ôl Ysgol Traed Bach wedi'i leoli yn Ysgol Bro Gwydyr, Llanrwst. Mae ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 15.00 a 18.00 yn ystod tymor yr ysgol, ac mae wedi'i gofrestru i ofalu am uchafswm o 24 o blant o dan 12 oed. Nia Roberts yw'r unigolyn cyfrifol a Gwyneth Williams a Sarah McCarthy yw'r personau sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Datblygiad | Digonol |
| Yr Amgylchedd | Digonol |
| Arwain a Rheoli | Digonol |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac maent yn mwynhau eu chwarae. Maent yn hyderus ac yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol, ac maent yn meithrin cydberthnasau da â'i gilydd a'r staff. Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio'n dda ac yn darparu gweithgareddau sy'n addas ar gyfer oedran y plant. Mae'r personau sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn groesawgar ac yn lân. Ar y cyfan, mae'r personau sy'n rhedeg y gwasanaeth yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran rheoli'r clwb ac yn gwneud newidiadau er budd y plant. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni, yr ysgol a'r Cylch Meithrin sy'n defnyddio'r un ardaloedd chwarae. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau a'r safonau.

### 2. Gwelliannau

- Mae'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant a'r dysgu diweddaraf er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r arferion cyfredol ym maes gofal y tu allan i'r ysgol a'r blynyddoedd cynnar;
- mae'r polisi cwynion wedi cael ei ddiweddaru yn unol â'r safonau a'r rheoliadau, ac mae ar gael i'r rhieni yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- mae'r datganiad o ddiben bellach ar gael i'r rhieni yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- darparwyd manylion am newidiadau i'r staff yn ystod ein harolygiad;
- mae'r unigolion sy'n rhedeg y clwb yn parhau i brynu'r teganau a'r cyfarpar y mae'r plant yn gofyn amdanynt ac er budd y plant.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Nid oes unrhyw ofynion.

Gwnaed argymhellion mewn perthynas â gofal a datblygu a'r amgylchedd.

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac maent yn mwynhau eu chwarae. Maent yn hyderus ac yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol, ac maent yn meithrin cydberthnasau da â'i gilydd a'r staff. Mae'r plant yn weithgar ac yn treulio cymaint o amser ag y mynnant yn chwarae yn yr awyr agored, ac maent yn cael cyfleoedd i ddysgu a datblygu sgiliau gwahanol.

### Ein canfyddiadau

Gwrandewir ar y plant, cânt eu trin â pharch, ac maent yn gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Maent yn dewis yr hyn y maent am ei wneud ac yn cael hwyl wrth chwarae. Mae'r plant yn setlo'n gyflym i'r drefn ac yn sgwrsio'n gyffrous ymysg ei gilydd wrth iddynt gyrraedd o'r ysgol. Maent yn dweud wrthym yn hyderus eu bod yn edrych ymlaen at ddod i'r clwb ac yn mwynhau treulio amser gyda'u ffrindiau. Pan maent yn brifo eu hunain ar ddamwain wrth chwarae, maent yn dweud wrth y staff yn gyflym pam y maent yn drist, ac maent yn hapus i barhau i chwarae ar ôl i’r staff eu cysuro.

Mae'r plant yn teimlo'n ddigon diogel i ofyn pam rydym yn ymweld â'r clwb ac maent yn hapus i siarad â ni a dweud wrthym beth y maent yn hoffi ei wneud. Mae rhai o'r plant yn dweud eu bod yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored, tra bod rhai eraill yn dweud wrthym fod yn well ganddynt actio sefyllfaoedd gwahanol gyda'u ffrindiau. Mae'r plant yn dweud wrthym yn glir am y rheolau y maent wedi cytuno arnynt, gan bwyntio’n falch at y rhestr y maent wedi'i chreu sydd i'w gweld ar y wal. Maent yn berffaith hapus gyda'i gilydd, gyda llawer o wenu a chwerthin wrth iddynt chwarae. Mae'r plant yn gwrando ar yr hyn sydd gan y staff i'w ddweud ac yn dod i mewn ar gyfer amser bwyd. Maent yn gwisgo eu cotiau i fynd allan i chwarae pan fyddant yn cael eu hatgoffa i wneud hynny.

Mae'r plant wedi gwisgo i fyny fel eu hoff gymeriadau Diwrnod y Llyfr, ac maent yn dweud wrthym yn falch pwy ydynt. Maent yn mwynhau creu cardiau Sul y Mamau ac yn sôn am yr anrhegion eraill sydd ganddynt i'w mamau ar gyfer Sul y Mamau. Mae'r plant yn cytuno'n naturiol pa rai ohonynt fydd yn chwarae'r fam a'r tad mewn gweithgaredd dychmygus, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd i osod y ffigurau chwarae yn ofalus. Mae'r plant wrth eu bodd yn dweud wrth y staff, ‘look, I can use the pogo’, wrth iddynt gadw cydbwysedd a sboncio ar yr un safle cyn neidio o gwmpas ar y ffon pogo.

Mae'r plant yn helpu i dacluso o'u gwirfodd ac yn gosod cwpanau a llwyau cyn gweini te. Maent yn dysgu sut i ailgylchu a rhoi unrhyw fwyd sydd dros ben yn y bin ailgylchu bwyd. Mae'r plant yn rhoi eu cwpanau a'u platiau ar ben ei gilydd yn daclus ar ôl bwyta, gan ddangos ystyriaeth i'r aelodau o'r staff a fydd yn golchi'r llestri. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu dychymyg a'u hiaith. Roedd lluniau ohonynt yn cynnal sioe bypedau ar bwnc o’u dewis, y gwnaeth pawb ei mwynhau.

## 2. Gofal a Datblygiad Digonol

### Crynodeb

Ar y cyfan, mae'r staff yn deall sut i gadw'r plant yn iach ac yn ddiogel. Maent yn garedig yn eu ffordd o weithio ac yn rheoli'r rhyngweithio'n dda. Maent yn diwallu anghenion y plant ac yn cynllunio gweithgareddau sy'n addas ar gyfer oedran y plant.

### Ein canfyddiadau

Mae'r staff yn hyrwyddo llesiant y plant ac yn dweud wrthym am y gweithdrefnau y byddant yn eu dilyn i ddiogelu'r plant. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn cynnal ymarferion tân, felly dylai pob un ohonynt fod yn gyfarwydd â sut i adael y safle mewn argyfwng. Os bydd plentyn yn cael anaf, mae'r staff yn gwneud yn siŵr eu bod yn rhoi gwybod i’r rhieni am hynny ac yn gofyn iddynt lofnodi'r cofnod damweiniau pan fyddant yn casglu eu plentyn. Mae'r staff yn glanhau'r byrddau ac yn atgoffa'r plant i olchi eu dwylo cyn bwyta er mwyn lleihau'r risg o groesheintio. Mae'r staff yn darparu amrywiaeth o ddewisiadau bwyd iach i'r plant, ond nid oedd y diod ffrwythau a gynigiwyd yn unol â'r arferion cyfredol. Mae'r staff yn cadw cofnodion presenoldeb dyddiol cywir ar eu cyfer eu hunain a'r plant, fel bod modd cadarnhau eu bod yn bresennol mewn argyfwng.

Mae'r staff yn creu amgylchedd hapus lle mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn dilyn polisi'r gwasanaeth wrth reoli’r rhyngweithio ac yn modelu ymddygiad da, gan drin y plant â pharch a siarad â nhw mewn iaith y maent yn ei deall. Mae rhyngweithio'r staff a'r plant yn gadarnhaol, gan ddangos bod y staff yn sicrhau bod y plant yn dysgu’n llwyddiannus ac yn deall sut i ymddwyn yn gymdeithasol.

Mae'r staff yn gweithio fel tîm ac yn gosod gweithgareddau y mae'r plant yn eu mwynhau cyn iddynt gyrraedd. Maent yn siarad â'r plant yn iaith eu cartref, naill ai Cymraeg neu Saesneg, ac maent yn eistedd gyda'r plant i chwarae gemau pan ofynnir iddynt wneud hynny Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau ac yn ceisio cynnwys syniadau'r plant eu hunain yn yr amserlen wythnosol. Dywedodd y staff fod y plant wedi mwynhau creu gwrthrychau gwahanol gan ddefnyddio cardfwrdd yn ystod gweithgaredd yr oeddent wedi'i gynllunio. Roedd y staff yn deall pwysigrwydd cynnig cyfleoedd o'r fath i'r plant ddatblygu eu sgiliau meddwl, eu sgiliau dysgu a'u sgiliau creadigol, ac roeddent yn gallu cynllunio a chynnwys mwy o'r gweithgareddau hyn yn wythnosol. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn sicrhau y caiff anghenion y plant eu diwallu, a’u dewisiadau eu bodloni.

## 3. Yr Amgylchedd Digonol

### Crynodeb

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel sy'n darparu ardaloedd chwarae a dysgu addas iddynt. Caiff gweithdrefnau eu dilyn er mwyn sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel, bod yr adnoddau a'r cyfarpar yn lân ac o ansawdd da, a'u bod yn addas i oedrannau'r plant sy'n bresennol yn gyffredinol.

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y staff yn cadw'r plant yn ddiogel; gofynnir i ymwelwyr lofnodi wrth gyrraedd fel nad oes unrhyw bersonau heb awdurdod yn dod ar y safle, ac mae'r staff yn cwblhau asesiadau risg a rhestrau gwirio diogelwch dyddiol. Mae'r clwb yn lân ac mae'r teganau a'r cyfarpar mewn cyflwr da.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y clwb yn gynnes ac yn groesawgar. Gall y plant ddangos peth o'u gwaith crefft a gwybodaeth am y clwb yn yr ystafell chwarae, ac mae ganddynt begiau i hongian eu heiddo. Mae'r ardal dan do yn cynnig cyfle i'r plant fwynhau amser tawel yn y gornel ddarllen, bod yn greadigol neu chwarae gemau. Mae yna ardal awyr agored er mwyn i'r plant ddatblygu yn gorfforol, drwy weithgareddau fel chwarae gemau pêl neu reidio sgwteri. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod gweithgareddau y mae'r plant yn eu hoffi ar gael iddynt, dan do ac yn yr awyr agored, sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u diddordebau.

Ar y cyfan, mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y cyfarpar yn addas, ond nid yw’r byrddau, y cadeiriau a’r toiledau isel bob amser yn addas i’r plant hŷn. Er bod dewis digonol o deganau a chyfarpar ar gael i'r plant, gallai adnoddau fel eitemau wedi'u hailgylchu ac amrywiaeth o ddeunyddiau gwahanol ymestyn eu profiadau chwarae a'u chwilfrydedd ymhellach.

## 4. Arwain a Rheoli **Digonol**

### Crynodeb

Mae gan y personau sy'n rhedeg y gwasanaeth weledigaeth glir ar gyfer y clwb, ac maent yn darparu gwasanaeth y mae'r rhieni a'r plant ei angen. Maent yn gwneud gwelliannau er budd y plant, ac mae'r partneriaethau â'r ysgol a'r rhieni yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau.

### Ein canfyddiadau

Roedd y datganiad o ddiben wrthi'n cael ei gyfieithu i'r Gymraeg, ac roedd y fersiwn Saesneg a welwyd yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Roedd hyn yn golygu y gallai'r rhieni wneud dewis gwybodus am b'un a oedd y gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion nhw ac anghenion eu plentyn. Er bod y personau a oedd yn rhedeg y gwasanaeth wedi ceisio dweud wrthym yn ddiweddar am newidiadau i'r staff, nid oedd y rhain wedi cael eu cwblhau o fewn 14 i'r newid, fel sy'n ofynnol. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn yn ystod ein hymweliad. Roedd angen i'r polisi cwynion gynnwys mwy o wybodaeth am yr amserlenni a ddefnyddir i reoli pryderon.

Roedd y staff yn siarad Cymraeg a Saesneg, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod wedi gweithio gyda'i gilydd ers sawl blwyddyn ac yn mwynhau eu rolau. Roedd gan y personau a oedd yn rhedeg y gwasanaeth ffeiliau addas ar waith ar gyfer y staff, ac roeddent yn cynnal arfarniadau staff a chyfarfodydd unigolyn yn ystod y flwyddyn, ac yn parhau i gefnogi ac annog y staff i gwblhau hyfforddiant a chyrsiau. Er enghraifft, roedd tri aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y clwb wedi cwblhau hyfforddiant ym maes gwaith chwarae, a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar grŵp oedran y plant a oedd yn mynychu’r clybiau y tu allan i’r ysgol a’r clybiau gwyliau.

Roedd y personau a oedd yn rhedeg y gwasanaeth yn gwneud newidiadau cadarnhaol er budd y plant, a dangosodd y staff y teganau a'r adnoddau newydd yr oeddent wedi'u prynu ar gais y plant yn ystod y flwyddyn. Er nad oedd llawer o'r rhieni wedi dychwelyd eu holiaduron blynyddol, mynegodd y sawl a ddychwelodd holiadur ‘lefel uchel o foddhad â'r gwasanaeth a gynigir '.

Roedd y staff yn cael gwybodaeth ysgrifenedig am anghenion a dewisiadau'r plant cyn iddynt ddechrau, ac roeddent yn yn rhoi gwybodaeth ar lafar i'r rhieni am amser eu plentyn yn y clwb yn ddyddiol. Roedd gan y clwb gydberthnasau cadarnhaol â'r ysgol a'r Cylch Meithrin a oedd yn defnyddio'r un ardaloedd â'r clwb yn adeilad yr ysgol ac ar ei safle. Roedd hyn yn helpu'r plant i fwynhau eu hamser yn y clwb gan nad oedd cyfyngiadau mewn perthynas â'u chwarae.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gallai'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth ystyried y canlynol:

- darparu cyfarpar a dodrefn i'r plant sy'n addas ar gyfer eu hoedran;
- cynnig mwy o gyfleoedd chwarae i'r plant i'w galluogi i arbrofi â deunyddiau gwahanol
- gallai'r staff ystyried rhoi dŵr i'r plant ei yfed yn ystod amser byrbryd.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth yn ddirybudd ar 05 Mawrth 2019 rhwng 15.35 a 18.25, ac ar 12 Mawrth 2020 rhwng 13.40 a 15.30.

Gwnaethom y canlynol:

- ystyried adroddiad arolygu blaenorol y gwasanaeth a gwaith papur ar-lein;
- edrych ar sampl o gofnodion, dogfennaeth a pholisïau. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol: y datganiad o ddiben, asesiadau risg, amddiffyn plant, cwynion a pholisïau rheoli ymddygiad;
- edrych ar gofnodion unigol dau aelod o'r staff a dau blentyn;
- edrych ar yr ardaloedd a ddefnyddiwyd gan y plant a'r adnoddau ar ddiwrnod ein harolygiad;
- arsylwi ar y plant a'r gofal a gawsant;
- siarad â'r plant a'r staff;
- rhoi adborth i'r unigolyn cyfrifol a'r person â chyfrifoldeb am y feithrinfa.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal y Tu Allan i'r Ysgol** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Nia Roberts** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Gwyneth Williams**<br><br>**Sarah McCarthy** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **24** |
| **Ystod oedran y plant** | **4-11 oed** |
| **Oriau agor** | **15.00 – 18.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod y tymor** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg a Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **12 Ionawr 2017**<br>**18 Ionawr 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **05 Mawrth 2020**<br>**12 Mawrth 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/08/2020